



Adroddiad Arolygu

Cartref Preswyl Chaseley House

**Chaseley House
26 Whitehall Road, Llandrillo-yn-Rhos
Bae Colwyn
LL28 4HW**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/02/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Preswyl Chaseley House

| | |
|--|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tender Loving Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo gofrestru ag AGC |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Crynodeb

Caiff y bobl eu trin mewn ffordd gynnes a charedig. Mae'r gweithwyr gofal yn talu sylw i'r bobl ac mae'r cofnodion gofal yn dangos beth y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain a beth y mae angen cymorth arnynt i'w wneud. Mae'r cartref yn lân ac yn gartrefol ac wedi'i leoli ar ei dir ei hun. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i wneud eu penderfyniadau a'u dewisiadau eu hunain ynghylch eu bywydau. Mae systemau cynnal a chadw ar waith i sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a'u datrys mewn modd amserol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi i gyflawni eu rôl a diwallu anghenion y bobl. Dywedodd y bobl eu bod yn hapus yn y cartref a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y bwyd.

Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn aml yn bresennol yn y cartref sy'n sicrhau eu bod yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Mae archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod y staff a'r preswylwyr yn fodlon a bod unrhyw bryderon uniongyrchol yn cael eu datrys. Mae'r darparwr wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith i adnewyddu'r gwasanaeth.

Llesiant

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu hybu a'u diogelu. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn mynd at y bobl mewn modd serchog a chyfeillgar. Gwnaeth pawb y gwnaethom siarad â nhw sylwadau ar ba mor gyfeillgar a siriol oedd y staff i gyd. Dywedodd un person, "*They always tell me to ring the bell or ask for anything that I want*". Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu bob mis fel bod y staff bob amser yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i anghenion y bobl.

Mae gan y bobl ddewis a dylanwad dros eu ffordd o fyw, am nad oes gan y cartref unrhyw arferion penodedig. Os oedd unrhyw arferion ar waith, daeth i'r amlwg wrth siarad â defnyddwyr y gwasanaeth mai eu dewis nhw oedd hynny ac nad oedd yr arferion hynny wedi'u cyflwyno er mwyn helpu i redeg y cartref. Cadarnhaodd un person "*I more or less choose when I want to get up and go to bed*" a dywedodd person arall, "*I am left to my own devices and I like it that way, they know it is important to me to not take my independence away*". Mae'r prydau yn gytbwys ac yn ddigonol, a gall y bobl ddewis cael rhywbeth arall nad yw ar y fwydlen.

Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn gartrefol ac mae gwaith cynnal a chadw'n cael ei gwblhau i sicrhau bod y bobl yn byw mewn amgylchedd a gynhelir yn dda. Mae'r dodrefn yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd wedi'u personoli ag eitemau personol pob unigolyn, lluniau ac eitemau eraill y maent yn eu mwynhau. Mae cyfarpar yn yr amgylchedd er mwyn helpu pobl i symud ac mae'r lle yn lân, yn gynnes, yn olau ac yn fawr. Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr adeilad, cyfarpar arbenigol a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae rhaglen adnewyddu ar waith ac mae'r darparwr yn buddsoddi'n barhaus mewn gwaith i uwchraddio'r adeilad.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed gan fod systemau a phrosesau ar waith i'w diogelu. Pan wnaethom siarad â'r staff, roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Gwelsom aelodau o'r staff yn mynd at y bobl mewn ffordd gynnes, gefnogol a chyfeillgar. Clywsom y staff yn defnyddio cywair ac iaith barchus wrth siarad â'r bobl a thrafod eu gofal. Cadarnhaodd defnyddwyr y gwasanaeth fod y staff bob amser yn eu trin mewn ffordd ofalgar a dywedodd un person, "*I feel safe here*". Mae'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal priodol ac ymatebol gan staff sydd â dealltwriaeth gyfredol o'u hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae'r staff gofal yn dilyn cynlluniau personol ar gyfer anghenion gofal y bobl. Mae'r rheolwr yn defnyddio gwybodaeth a gesglir o ffynonellau amrywiol i ysgrifennu cynlluniau personol sy'n cynnwys anghenion y bobl, eu dewisiadau, eu hoff bethau a'u cas bethau, a chyfarwyddiadau clir i'r staff ynghylch sut i fodloni'r rhain. Mae asesiadau risg priodol ar waith lle bo angen sydd wedi'u cysylltu â chynlluniau personol perthnasol. Mae gan y staff wybodaeth dda am ofynion gofal y bobl. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu bob tri mis neu'u diweddarw wrth i anghenion y person newid.

Caiff y bobl eu cefnogi â'u hanghenion gofal iechyd, caiff eu llesiant ei fonitro a gallant gael cymorth meddygol. Gofynnir am gymorth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd anghenion y bobl yn newid. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gofal da iawn a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gwelsom fod gan y bobl gydberthnasau da â'r staff a chafodd hyn ei gadarnhau gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Dywedodd un person "*The staff are extremely caring*". Dywedodd y bobl wrthym fod eu hanghenion gofal yn cael eu trafod â nhw'n rheolaidd a bod eu hanghenion a'u dewisiadau unigol yn cael eu diwallu. Disgrifiodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu hanghenion gofal personol a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn cofnodion gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi gallu parhau i wneud pethau drostynt eu hunain a bod cymorth ar gael iddynt pan fo angen. Wrth edrych ar gofnodion, gwelsom fod meddyginiaeth y bobl yn cael ei rhoi yn unol â'r presgripsiwn.

Mae gan y bobl ddeiet maethlon. Gwnaethom edrych ar y fwydlen ac mae'r prydau yn faethlon ac yn amrywiol. Gwelsom fod y bwyd yn edrych ac yn arogl'n flasus a'i fod yn cael ei gyflwyno'n dda. Gwelsom fod maint y prydau'n dda hefyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau eu prydau a bod eu ceisiadau am brydau eraill nad ydynt ar y fwydlen yn cael eu bodloni bob amser. Dywedodd un person, "*The cook knows that there are some things that I do not like, so they do not offer me those things*" a dywedodd person arall, "*The food they bring me is beautiful and the service is great*". Clywsom y bobl yn canmol y pryd roeddent newydd ei fwyta. Gwelsom fod y bobl yn dewis bwyta eu cinio yn y man mwyaf cyfforddus iddynt. Dangosodd cofnodion fod pwysau a deiet y bobl yn cael eu monitro.

Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn groesawgar, yn gyfforddus, yn gartrefol ac wedi'i bersonoli. Ers i'r darparwyr newydd brynu'r gwasanaeth, maen nhw wedi buddsoddi cryn dipyn mewn gwaith i adnewyddu'r amgylchedd. Mae'r ystafelloedd ymolchi wedi cael eu hadnewyddu ac mae pob ystafell wely bellach yn en-suite. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau, eu hornamentau a'u heitemau cofiadwy eu hunain. Mae'r amgylchedd yn ffres ac yn lân, a chyfeiriodd y bobl at lendid y cartref. Dywedodd un person "*I have a bright cheery room*" a dywedodd un arall, "*I love my room, it is very bright and newly decorated*". Mae ardaloedd yn y cartref lle gall y bobl gymdeithasu neu dreulio amser tawel yn ymlacio. Mae dwy lolfa gymunedol ar gael i'r bobl eu dewis ac mae un yn fwy tawel. Gall y bobl gwrdd â gwesteion yn yr ardaloedd cymunedol neu ym mhreifatrwydd a chysur eu hystafelloedd eu hunain.

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel. Gall y bobl fod yn hyderus bod y safle a'r cyfarpar yn ddiogel am fod cyfarpar ac offer yn cael eu gwasanaethu pan fo angen. Roedd tystiolaeth o hyn yn y sampl o gofnodion a welsom. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân, cyfarpar codi a symud, a gosodiadau trydanol. Nid oeddem yn gallu mynd i mewn i'r adeilad heb ganu'r gloch. Gofynnwyd i ni am brawf adnabod a gofynnwyd i ni lofnodi a nodi ein hamser cyrraedd a gadael yn y llyfr ymwelwyr. Caiff gwybodaeth gyfrinachol y bobl ei chadw'n ddiogel. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol pe bai tân. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar ei dir ei hun sy'n cynnwys lawntiau a gwelyau blodau. Mae patio bach ar gael y gall y bobl fynd iddo ar eu pen eu hunain neu gyda'r staff os ydynt yn dymuno. Mae matiau llawr synhwyraidd ym mhob ystafell wely sy'n cael eu hactifadu os oes angen, er mwyn sicrhau diogelwch y bobl hynny sy'n wynebu risg o gwmpo. Fodd bynnag, cyn penderfynu defnyddio'r mat llawr synhwyraidd, dylai'r rheolwr sicrhau bod hynny er budd pennaf y person drwy drefnu asesiad o'i anghenion ac asesiad o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Busnes teuluol yw Chaseley House ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn chwarae rôl amlwg yn y gwaith o reoli'r cartref, ochr yn ochr â'r rheolwr cofrestredig. Mae gan y ddau ohonynt rolau penodedig, a'r Unigolyn Cyfrifol yw'r aelod o'r tîm rheoli sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth. Dywedodd un person, "*The staff are very friendly, and the family (owners) are always around to see how you are and want to make everything right for you*". Mae cofnodion yn dangos bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ôl y gofyn mewn perthynas â meysydd fel llesiant, gofal a chymorth a'r amgylchedd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn ac y byddent yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny pe bai angen. Dywedodd y bobl wrthym nad oeddent erioed wedi teimlo bod angen gwneud cwyn am fod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt yn cael eu datrys yn syth.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sy'n cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo'n rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn hapus yn gweithio yn y cartref, eu bod yn cael eu hyfforddi a'u goruchwyllo a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Dywedodd un aelod o'r tîm gofal "I have enough support, new management are approachable, they have always responded in a positive way". Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael hyfforddiant. Cawsom gofnodion sy'n dangos bod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael a bod y gweithwyr gofal wedi manteisio arno. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar godi a chario, diogelu, meddyginiaeth, cymorth cyntaf, a diogelwch tân. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn llawn cymhelliant ac roeddent wedi dweud wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae cofnodion yn dangos bod y staff gofal hefyd yn cael sesiynau goruchwyllo un i un.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwyllo trefniadau ariannol a buddsoddiad yn y gwasanaeth fel ei fod yn ariannol gynaliadwy ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel a chyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod y cartref yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da, gyda dodrefn sy'n addas i'r bobl yn y cartref. Mae gan y bobl ddewisiadau bwyd da ac mae digon o fwyd ffres yn y cartref. Mae buddsoddiad ariannol wedi cael ei wneud ac yn parhau i gael ei wneud er mwyn uwchraddio ardaloedd yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|--|---|
| Statws | Ystyr pob un |
| Newydd | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| Heb Gyflawni | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|--|---|---------------|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|---|--------|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 29/08/2023